GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (RHAEADR GWY, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A MARCHOGWYR DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Rhaeadr Gwy, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beiciwr a marchogwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 yn Rhaeadr Gwy sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4518 St Harmon Road hyd at bwynt 200 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y fynedfa i gerbydau i Barc Carafannau a Gwersylla Wyeside.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de i Lanelwedd, yr A483 tua'r gogledd i Landrindod, y Groes a'r Drenewydd, yr A489 tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A470 yng Nghaersŵs a'r A470 tua'r de i Raeadr Gwy: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Dylai cerbydau ag ochrau uchel dros 14' sy'n teithio tua'r gogledd ddilyn y llwybr uchod hyd at Landrindod ac yna mynd trwy Barc Menter Ddole Road, cymryd yr A4081 tua'r gorllewin i Lanllŷr, ymadael â'r A4081 a theithio tua'r gogledd drwy Lanllŷr, a dilyn Gravel Road a'r A44 tua'r dwyrain i ymuno â'r A483 yn y Groes ac yna parhau fel a nodir uchod; i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Mawrth 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol ar benwythnosau yn unig (rhwng 07:00 o'r gloch a 19:00 o'r gloch ar ddyddiau Sadwrn a dyddiau Sul) hyd 27 Mawrth 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod mewn grym. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

THE A470 TRUNK ROAD (RHAYADER, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & EQUESTRIANS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Rhayader, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and equestrians from proceeding on the length of the A470 trunk road at Rhayader that extends from a point 25 metres south-east of the centre-point of its junction with the B4518 St Harmon Road to a point 200 metres north-west of the centre-point of the vehicular access to Wyeside Caravan & Camping Park.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A470 to Llanelwedd, northbound A483 to Llandrindod Wells, Crossgates and Newtown, westbound A489 to its junction with the A470 at Caersws and southbound A470 to Rhayader: vice versa for southbound traffic.

Northbound high-sided vehicles over 14' should follow the above route to Llandrindod Wells then proceed through Ddole Road Enterprise Park, take the westbound A4081 to Llanyre, leave the A4081 and travel northbound through Llanyre, follow Gravel Road and the eastbound A44 to join the A483 at Crossgates then continue as above; vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 5 March 2022. The temporary prohibitions are expected to operate on weekends only (07:00 – 19:00 hours on Saturdays and Sundays) until 27 March 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government